**CYNGOR CYMUNED YSTRAD FFLUR**

**CYFARFOD MISOL**

**25.01.2023 @7PM**

**LLYFRGELL NEUADD PANTYFEDWEN, PONTRHYDFENDIGAID**

1. **CROESO'R CADEIRYDD A MATERION PERSONOL**

   Croesawodd y Cadeirydd y Gyngh. Angharad Jones, bawb i'r Cyfarfod gan ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

2. **YN BRESENNOL**
   Cyng. Ieuan Davies
   Cyngh. Alun Price Jones
   Cyngh. Angharad Jones
   Cyngh. Non Jones
   Cyngh. Richard Jones
   Cyngh. Gareth Owen
   Cyngh. Doug Rowbotham
   Cyng Elgan Williams
   Cyngh. Sirol Ifan Lloyd Davies
   Eleri Thomas – Clerc
   Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu John Evans.

3. **YMDDIHEURIADAU AB ABSENOLDEB**
   Ymddiheurodd y Cyngh. Roland Bago a'r Gyngh. Mel Briant am eu hanallu i fynychu'r cyfarfod.

4. **MATERION YN YMWNEUD Â'R HEDDLU**
   **Diweddarodd Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu aelodau am ddigwyddiadau o fewn yr ardal.**
   **4.1** **Dau drosedd wedi'u hadrodd** yn Ffair Rhos cyn y Nadolig. Torrwyd canghennau coed yn anghyfreithlon.
   **4.2** **Dygwyd gliniadur o** Stryd Teifi, Pontrhydfendigaid ar yr 20.01.2023.
   **4.3** **Poster dan law Heddlu Dyfed-Powys yn dwyn y pennawd,** "A allwch chi adnabod Fferm ganabis?" i'w harddangos yn Siop y Bentref, Fb y Cyngor Cymuned a'r safle ar y we.

5. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL A BUDDIANT SY'N RHAGFARNU**
   **Dim wedi'i ddatgan.**

6. **CADARNHAU COFNODION CYFARFOD 17EG O DACHWEDD 2022**
   CYNIGIWYD (y Cyngh. Richard Jones); EILIWYD (y Cyngh. Alun Price Jones) a PHENDERFYNWYD bod Cofnodion Cyfarfod yr 20fed Hydref 2022, yn gywir ac fe'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

## 7. MATERION YN CODI

### 7.1 Pennu’r Praesept 2023-24

Ar ôl grym drafodaeth, cytunwyd yn unfrydol i beidio â chynyddu’r Praesept ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf (cyfeiriwch at Adroddiad y Gyllideb ynghlwm) yn sgîl yr argyfwng costau byw a'r ffaith bod Cyngor Sir Ceredigion a Heddlu Dyfed Powys yn debygol o gyflwyno cynnydd. Erys ar £7,213. Meddylid y gellid cwrdd â chostau disgwyliedig o'r Praesept a'r arian wrth gefn oddeutu £4,000. Pe bai angen arian ychwanegol, gellid trefnu gweithgaredd codi arian gan gynnwys y gymuned yn y gweithgareddau.

### 7.2 AROLWG ROSPA Ardal Chwarae Pantyfedwen 2022

Bydd gweithgor yn glanhau'r parc yn gyffredinol, a phaentio rhai nodweddion penodol. Gellid dod o hyd i grant; bydd y clerc yn neilltuo sylw pellach i'r mater.

Roedd angen tocio canghennau coed. Cytunwyd darganfod pwy yswiriodd y ffin rhwng y parc a'r cae pêl-droed- Pwyllgor y Neuadd neu'r Cyngor Cymuned. Roedd y Cynghorydd Richard Jones a'r Gynghorydd Mel Briant wedi egluro'r sefyllfa i Bwyllgor y Neuadd i gynnwys cyflwr y coed ar y ffin. Cytunodd aelodau Pwyllgor y Neuadd, a oedd yn bresennol yn y cyfarfod ble drafodwyd y mater, pe bai'r coed yn cael eu hystyried yn anniogel, y dylid eu torri i lawr. Cafodd hyn ei gynnig i'w wneud heb unrhyw gost i bwyllgor y neuadd gan fod 2 gynghorydd cymunedol wedi cymhwyso ac yswirio i docio coed. Awgrymwyd y gellid dethol llwyni neu goed bach sy'n tyfu yn isel eu lle. Byddai hyn yn ychwanegu at fioamrywiaeth/gwerth ecolegol y parc ac yn gallu cael eu cynnal a’u cadw mewn blynyddoedd i ddod.

Ar gyfer yr arwydd gwybodaeth i dwristiaid, tynnodd aelodau Pwyllgor y Neuadd sylw at y ffaith bod arwydd eisoes yn bresennol ychydig y tu mewn i'r gatiau (wedi pylu ychydig) y gellid ei ddisodli pe bai'r arwydd yn darparu'r un wybodaeth neu wedi'i gosod ochr yn ochr pe bai gwybodaeth wahanol yn cael ei harddangos.

Gofynnir i Bwyllgor y Neuadd, a fyddai'r arwydd, a oedd yn cynnig gwybodaeth wahanol i'r arwydd presennol, yn gallu cael ei arddangos o dan yr hysbysfwrdd.

### 7.3 Diffibrilwyr o fewn y Pentref:

Roedd y Cyng Ieuan Davies a'r Cyng Elgan Williams wedi lleoli'r diffibriliwr a'r blwch newydd, yn agos at dafarn Teifi Inn, Ffair Rhos. Bydd y Cyng Ieuan Davies yn trefnu Sesiwn Hyfforddi Diffibriliwr yn ystod yr wythnosau nesaf ac yn hysbysu'r cyhoedd dan law Facebook y Cyngor Cymuned.

7.4 **Glan-yr-Afon: Roedd canclwm Japan yn broblem yn yr ardal hon.**

Trafodwyd Glan yr Afon a'r ardal sy'n ymestyn hyd at y Bont Werdd. Roedd ymchwiliadau wedi eu gwneud yn y gorffennol i gofrestru'r tir gyda'r Gofrestrfa Tir. Cytunwyd i ddod o hyd i'r dogfennau hyn erbyn y cyfarfod nesaf.

**7.5** **Cyfleusterau Cyhoeddus:** holodd gohebiaeth cynt gan Mrs Mair Jones tybed a fyddai modd gosod Cyfleusterau Cyhoeddus yn y Pentref. Eglurwyd bod grant o £500 wedi'i glustnodi gan Gyngor Sir Ceredigion yn y gorffennol. Cytunwyd i ymchwilio ymhellach a gofyn i'r Llew Coch a'r Capel os oedd diddordeb ganddynt i ddarparu cyfleusterau cyhoeddus pe bai grant ar gynnig. *Ymateb gan Gyngor Sir Ceredigion yn sôn nad oedd grant ar gael ar hyn o bryd ond gobeithir ei gyflwyno'n ystod y dyfodol agos.*

**7.6** **Taith Dyffryn Teifi:** Mynychodd Mr Jim Cowie gyfarfod y Cyngor Cymuned yn ystod Ebrill 2022 i wneud cyflwyniad parthed Taith Dyffryn Teifi. Ni fu'n bosib defnyddio'r Fideo, i'w ymgorffori o fewn y Cyflwyniad, bryd hynny. Lluniodd Gymdeithas Dyffryn Teifi daflen er mwyn esbonio a hyrwyddo ei nodau a'i hamcanion.

O fewn y daflen gwahoddir ymatebion a sylwadau a gwerthfawrogir negeseuon o gefnogaeth.

Gofynnodd Mr Cowie, tybed a allai fynychu cyfarfod dyfodol y Cyngor Cymuned i gynnig eglurhad pellach ac i ddangos cynnwys y fideo, a drefnwyd ar gyfer mis Ebrill diwethaf. ***Penderfynwyd gwahodd Mr Cowie i gyfarfod mis Chwefror y Cyngor Tref.***

**7.7** **Llifogydd yn ardal yr Afon Teifi ger y Red Lion:** Cynhelir y cyfarfod safle ar Ddydd Llun 30ain Ionawr 2023 @ 11am gyda chynrychiolydd Cyfoeth Naturiol Cymru. Disgwylir presenoldeb y Cyngh. Richard Jones a'r Cyngh. Alun Price Jones.

## 8. GOHEBIAETH

**8.1** E-bost gan un o drigolion y pentref yn mynegi consyrn na waredwyd â baneri a phethau i'w dal yn sownd ar ôl llwyfannu digwyddiadau yn y Pafiliwn. Tynnwyd sylw hefyd at bynting oedd yn weddill ac wedi'i rhwygo o fewn y Pentref. Roedd y Cynghorydd Roland Bago, bellach, wedi gwaredu â'r defnyddiau di-angen a hysbyswyd y preswylydd o hyn.

**8.2** **Newidiadau i wasanaethau bws yng Ngheredigion**

Bydd newidiadau i wasanaethau bws lleol yng Ngheredigion o ddydd Mawrth 3 Ionawr 2023 ymlaen.

Mae'r tendrau a dderbyniwyd yn rhan o broses gaffael ar gyfer gweithredu sawl gwasanaeth wedi dangos cynnydd sylweddol

mewn costau. Mae hyn wedi arwain at ofyn am gynnydd sylweddol mewn lefelau cymhorthdal, ar adeg pan fo cyllid cyhoeddus dan bwysau aruthrol. Mae'r costau uwch yn adlewyrchu'r heriau penodol sy'n effeithio ar y diwydiant bysiau ar hyn o bryd, sy'n cynnwys costau gweithredu sylweddol uwch, diffyg gyrrwyr cymwys ar gael, ansicrwydd ynghylch dulliau ariannu yn y dyfodol yn ogystal â gostyngiad yn nifer y teithwyr a newid mewn ymddygiad teithio.

Mae nifer y teithwyr bysiau wedi bod yn gostwng ledled Cymru ac wedi haneru i bob pwrpas yn y cyfnod rhwng 1982, lle cafwyd 181 miliwn o siwrneiau gan deithwyr, a 2019/20 lle cafwyd 91 miliwn o siwrneiau gan deithwyr. Mae pandemig Covid-19 wedi effeithio ar hyn yn sylweddol, a gwelwyd gostyngiad i 26 miliwn o siwrneiau gan deithwyr yn 2020/21, sydd wedi cael effaith bellach ar hyfywedd gwasanaethau bysiau lleol.

Bydd gwasanaethau 22T (Aberystwyth-Pontarfynach), 27T (Penrhyncoch-Penbontrhydybeddau) a T29 (Cylch Tregaron), sy'n wasanaethau sy'n ymateb i'r galw, yn dod i ben ddiwedd mis Rhagfyr 2022. Mae hyn oherwydd y costau sylweddol sy'n gysylltiedig â'u darparu a'r lefel isel iawn sy'n eu defnyddio, sy'n cyfateb i lefelau anhyfyw o gymhorthdal cyhoeddus fesul siwrnai teithiwr.

Bydd newidiadau i'r amserlenni ar gyfer gwasanaethau 525 (Aberystwyth-Ponterwyd), 526 (Aberystwyth-Penrhyncoch) a 585 (Aberystwyth-Tregaron-Llanbedr Pont Steffan). Mae'r amserlenni ar gyfer y gwasanaethau hyn, yn amodol ar gael eu cyflwyno gan y gweithredwyr a'u cymeradwyo gan y Comisiynydd Traffig, wedi'u hatodi. Mae'r amserlenni hyn yn seiliedig ar gynigion a gyflwynwyd gan y gweithredwyr bysiau lleol ac yn adlewyrchu'r hyn y gellir ei gyflawni'n weithredol gyda'r adnoddau sydd ar gael, o ran bysiau a gyrrwyr, ar hyn o bryd.

Bydd gwasanaethau T21 (Aberystwyth-Llanafan-Tregaron) a 552 Cardi Bach (Ceinewydd-Aberteifi) yn parhau fel y maent ar hyn o bryd.

Mae'r holl gontractau hyn wedi'u dyfarnu ar sail 6 mis er mwyn caniatáu adolygiad ehangach.

**Dogfennau:** Amserlenni gwasanaeth bws - Ionawr 2023

**Linc ar-lein:**
www.ceredigion.gov.uk/preswyliwr/newyddion/newidiadau-i-wasanaethau-bws-yng-ngheredigion/

**8.3** **Cyngor Sir Ceredigion: Ceisio barn ar sut i wneud defnydd o ystafelloedd gwag CSC.** Roedd y sefyllfa wedi codi gan fod llawer o aelodau staff bellach yn gweithio o adref, arfer a gyflwynwyd yn ystod Pandemig COVID-19. (Dyddiad cau 31.01.2023)

**8.**4 **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion Cynllun Llesiant Lleol drafft ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus 2023-2028.**
Mae'r Cynllun yn amlinellu'r materion y bydd BGC Ceredigion yn cydweithio arnynt yn ystod y pum mlynedd nesaf. Mae'r Cynllun wedi'i seilio ar yr Asesiad o Lesiant Lleol 2021-2022 a ganolbwyntiodd ar gyflwr Llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ar draws Ceredigion.
Fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, mae BGC Ceredigion yn gofyn am adborth ar sut y gellir gwneud y gwahaniaeth mwyaf i lesiant trigolion Ceredigion.
Bydd hyn yn cynnig gwell dealltwriaeth o sut i wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yr ardal: o sefydlu busnesau newydd i warchod yr amgylchedd, ac o fynd i'r afael â thlodi ac unigrwydd i adeiladu ymdeimlad o gymuned a balchder ar draws y sir. Bydd yn gosod y seiliau ar gyfer cydweithio yn y dyfodol, gan oresgyn yr heriau ar y cyd a manteisio ar y cyfleoedd sydd bwysicaf i bob un ohonom.

Gellir ymateb **ar-lein** neu drwy lawrlwytho'r **ffurflen ymateb** a'i dychwelyd drwy e-bost neu ei phostio i'r cyfeiriad a nodir ar waelod y ffurflen. Mae copïau papur o'r Cynllun a ffurflenni ymateb hefyd ar gael yn holl lyfrgelloedd Ceredigion, gan gynnwys y faniau llyfrgell symudol. Os ydych angen rhagor o wybodaeth, neu angen y dogfennau mewn fformat arall, ffoniwch 01545 570881 neu drwy e-bostio clic@ceredigion.gov.uk.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar **dudalen Ymgynghoriadau** Cyngor Sir Ceredigion ac ar **wefan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus**.
Bydd yr ymgynghoriad yn dod i ben ar 31ain o Ionawr 2023.

**8.5** **Canllawiau Cau Ffyrdd ar gyfer Digwyddiadau Arbennig Sefydlog neu Symudol.**

Bydd angen i unrhyw ddigwyddiad sy'n cynnwys oedi neu atal traffig ar briffordd caiff ei chynnal a'i chadw'n gyhoeddus gael ei gofrestru gyda'r *Gwasanaethau*

*Priffyrdd ac Amgylchedd* drwy'r *Adran Cau Ffyrdd* gan gynnwys cais am *Orchymyn Cau Ffyrdd*

*Digwyddiad Arbennig*.

Gallwch gael gafael ar *Orchymyn Cau Ffyrdd Digwyddiadau Arbennig* a *Nodiadau Canllawiau* ar wefan y Cyngor:

http://www.ceredigion.gov.uk/resident/travel-roads-parking/roadworks/road-closures/

Argymhellir eich bod yn cymryd yr amser i ddarllen y nodiadau canllawiau ar y wefan cyn cynllunio digwyddiad fydd i'w gynnal ar y briffordd, os yw'n ddigwyddiad Sefydlog neu Symudol.

Mae'r *Nodiadau Canllawiau* yn amlygu'r wybodaeth sy'n ofynnol gan yr Awdurdod Priffyrdd oddi wrth y trefnydd / ymgeisydd a'r amserlen i'w ddarparu. Fel y nodwch yn y *Nodiadau Canllawiau* bydd angen o leiaf rhybudd o 12 wythnos ar Gyngor Sir Ceredigion i brosesu cais.

Dylech nodi nad oes gan yr heddlu/stiwardiaid/ marsialiaid y pŵer i oedi nac atal traffig ar gyfer *Digwyddiad Arbennig* ond bai fod *Gorchymyn Traffig* mewn lle. Mae'n bosib y gall Heddlu Dyfed Powys gynnig cefnogaeth ond os nad oes Gorchymyn mewn lle ond mae eu pwerau'n gyfyngedig.

Mae'n werth nodi y gall y gefnogaeth yma gael ei thynnu yn ôl ar y funud olaf os bydd sefyllfa brys yn codi rhywle arall. Mae hyn yn pwysleisio'r angen i chi sicrhau / trefnu y bydd gennych ar gael gefnogaeth ychwanegol o ran stiwardiaid / marsialiaid achrededig / profiadol.

Bydd cynnal digwyddiad ar y briffordd heb Gorchymyn mewn lle yn gweithredu'n groes i *Ddeddf Rheoli Traffig 2004* a dyletswyddau *Awdurdod Priffyrdd*. https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2004/18/section/16 .

Mae'n bosib y bydd digwyddiadau a gynhelir ar y Briffordd heb Orchymyn mewn lle yn golygu y bydd trefnwyr y digwyddiad yn agored i hawliadau cyfreithiol neu hawliadau yswiriant o ganlyniad i ddamwain neu niwed ac mi all hyn olygu camau cyfreithiol yn erbyn trefnwyr y digwyddiad gan yr *Awdurdod Priffyrdd* am weithred anghyfreithiol o rwystro. Noder nad oes yn rhaid i'r *Awdurdod Priffyrdd* ddarparu gorchymyn ar gyfer cau'r ffordd ac y mae hawl ganddo wrthod cais.

**8.6 Diweddariad gan Jasmine Wilson ar y cynllun arfaethedig i godi arian i Wcráin.**

Teimlwyd y byddai'n rhy anodd cynnal Bore Goffi ym mis Hydref 2022, fel yr awgrymwyd, ynghynt oherwydd digwyddiadau codi arian eraill oedd yn cael eu cynnal yn y pentref.
Ar lefel bersonol, roedd wedi cyfrannu at grŵp codi arian Ukraine Train sydd wedi'i sefydlu yn Yr Hwb ym Mhenparcau 01970 611099. Bydd Jenny Jenkins a Phil Westbury yn falch o dderbyn rhoddion ariannol, nwyddau molchi,

dillad, blancedi, cyflenwadau meddygol ac ati. Roedd rhan o'r llwyth diwethaf yn cynnwys generaduron gwerth £8,000, 300 o flychau Nadolig i blant, ac ati

**8.7 Cyngor Tref Tregaron yn mynegi consyrn am Gynlluniau Creu Coetir Glasdir Llywodraeth Cymru yn yr ardal.**

Yn y misoedd diwethaf mae sawl cynllun yn Ward Tregaron wedi dod at sylw' Cyngor Tref Tregaron ac y mae ganddynt bryderon ar effaith hyn ar ddyfodol amaeth yr ardal.

Y maent wedi gwrthwynebu cynlluniau pan ymgyghorwyd â hwy amdanynt a hefyd wedi cysylltu ag Elin Jones AS; Ben Lake AS; Cefin Campell a Gweinidog Llywodraeth Cymru i leisio pryderon: Er gwybodaeth.

**8.8 Sesiynau Picio Heibio\; Prosiect:** CUPHAT Dweud eich Dweud am dwristiaeth treftadaeth yn eich ardal chi. 27.01.23; Neuadd Goffa Tregaron: 11am-1pm. Er gwybodaeth.

**8.9 Gohebiaeth pellach: er gwybodaeth yn unig.**

**9. CYLLID**

**9.1 Arwyddo Sieciau**: Rhai ag awdurdod yn y gorffennol: 2/3: Clare Hughes; Non Jones & Doug Rowbotham. Y mae'r Cyngh. Gareth Owen wedi ymweld â Banc Barclays, Aberystwyth a trefniadiau mewn lle bellach fel a ganlyn: 2/3 Cyng Doug Rowbotham, Non Jones a Gareth Owen sydd ag awdurdod.

**9.2 Cyflog y Clerc:** Rhagfyr 2022 a Ionawr 2023 £193.83 x2

**9.3 Costau'r Clerc:** £34.76

**9.4 Bynting:** Jiwbilî 2022: £270

**9.5 Graen ar gyfer yr Heol:** £16.60

**10. CYNLLUNIO**

**10.1 Cais cynllunio: A230035**

Ymgeisydd: Chloe Hatton, Cyfoeth Naturiol Cymru

Cynnig: Adeiladu llwyfan pysgota (2x2m) a

llwybr mynediad i'r anabl o'r ffordd (20m) i'w ddefnyddio gan

aelodau Gymdeithas Pysgota Tregaron.

Lleoliad: Cornel Ogledd-orllewinol Llyn Egnant,

Pontrhydfendigaid, Ystrad Meurig, SY25 6ET.

**Sylwadau’r Cyngor Cymuned: Dim Gwrthwynebiad.**

**11. UNRHYW FATER ARALL**

**I ADRODD AT SYLW CYNGOR SIR CEREDIGION (11.1:11.6)**

**11.1 Mae tyllau ar y ffordd** i'w gweld y tu allan i Argoed, Heol y Felin, Pontrhydfendigaid;

**11.2 Draeniau wedi'u blocio** yn broblem, o Siop y Bentref i'r brif Bont;

**11.3 Mae angen disodli’r gamfa** yn ardaloedd cyfagos i safle Carafanau Parc Teifi;

**11.4 Mae'r gyli’n parhau'n** broblem y tu allan i Llidiart y Ffair, Ffair Rhos;

**11.5 Bin graean:** tu allan i Gwm Meurig, Ffair Rhos – mae angen ail-lenwi;

**11.6 Pwll dŵr** yn agos at Gwm Meurig, Ffair Rhos.

**11.7 Holwyd a oedd cynlluniau** mewn gweill i drafod Coroniad y Brenin Siarl ym mis Mai 2023. i geisio gwybodaeth pellach**.**

**Daeth y cyfarfod i ben am 9.00pm.**

**--------------------------------------------------------------------------------**
**(arwyddwyd/dyddiad)**